

Fersiwn	4
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Awst 2016



HS 23

Polisi Rheoli Contractwyr

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.



RHEOLAETH DOGFENNAU	
ENW'R POLISI	Polisi Rheoli Contractwyr
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif Ffôn	01443 425536
Dyddiad Cychwynnol Lansio'r Polisi	Hydref 2000
Swyddog Adolygu	Mike Murphy
Dyddiad Adolygu	Awst 2018
Dyddiad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd Gan
Hydref 2000	Gerwyn Hogben
Gorffennaf 2002	Gerwyn Hogben
Chwefror 2010	Mike Murphy
Awst 2016	Mike Murphy
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Cafodd y ddogfen hon gymeradwyaeth gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Dîm Rheoli AD	
Tîm Rheoli Corfforaethol	
Cabinet	

CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	1
2.	Datganiad Polisi.....	1
Canllaw Polisi		
3.	Pam y mae'n Bwysig Rheoli Contractwyr?	3
4.	Y Sefyllfa Gyfreithiol	3
5.	Ymagwedd Pum Cam i Reoli Contractwyr.....	4
6.	Cyngor	8
	Atodiad A - Trefniadau Asesu Risg.....	9
	Atodiad B - Enghraifft o Restr Wirio Cymhwysedd: Cwestiynau ar gyfer Contractwyr	12
	Rhestr Wirio Rheolwyr.....	13

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Crëwyd y Polisi hwn yng ngoleuni'r angen i sicrhau, cyhyd â bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod pob math o gontract sydd y tu hwnt i Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (CDM) yn cael eu rheoli'n effeithiol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- 1.2 At ddiben y polisi hwn, contractwr yw unrhyw un nad yw'n gyflogai y mae'r Cyngor yn ei ymgysylltu i wneud gwaith.

2. DATGANIAD POLISI

- 2.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau, pan fydd unrhyw waith yn cael ei wneud ar ei eiddo neu ar ei ran, y caiff ei wneud heb berygl i iechyd a diogelwch ei gyflogeion ac i eraill.
- 2.2 Bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio contractwyr cymwys yn unig i weithio ar ei ran. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor ond yn rhoi contractau i'r rheiny sydd wedi dangos dealltwriaeth o iechyd a diogelwch a gallu i reoli eu gwaith yn ddiogel.
- 2.3 Bydd unrhyw reolwr a awdurdoddir i roi contractau ar gyfer gwaith ar ran y Cyngor yn sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y contractwr ar restr gymeradwy y Cyngor.
- 2.4 Bydd unrhyw reolwr a awdurdoddir i roi contractau yn sicrhau bod y contract yn cynnwys manyleb glir o'r gwaith i gael ei wneud ac o unrhyw reolau sy'n berthnasol i'r eiddo a'r gwaith sy'n ofynnol i gynnal diogelwch.
- 2.5 Ar gyfer pob contract, bydd 'cynrychiolydd (cynrychiolwyr) cleient' fydd yn cysylltu â'r contractwr ac yn sicrhau:
 - cyn i'r gwaith ddechrau, bod y contractwr wedi cael briff ar unrhyw agwedd ar weithgareddau ac adeiladau'r Cyngor a allai gyflwyno risg i'r staff sydd ar gontract;
 - bod y contractwr wedi paratoi Datganiad Dull neu rywbeth tebyg yn diffinio'r trefniadau ar gyfer gweithio'n ddiogel cyn awdurdodi'r gwaith i ddechrau;
 - cyn dechrau'r contract, mae'n rhaid i'r cleient a'r contractwr gyfnewid gwybodaeth er mwyn sicrhau, cyhyd â bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod peryglon wedi eu nodi a'r perygl wedi ei ddileu neu ei leihau cymaint â phosibl;
 - yn ystod y gwaith, bod trefniadau wedi eu sefydlu i fonitro gwaith diogel gan y contractwr;

- cyn i'r gwaith ddechrau bod y cyflogeion a'r rheolwyr sydd fel arfer yn gweithio'n agos at neu yn yr ardal lle bydd y gwaith yn cael ei wneud, neu'n teithio trwy'r ardal honno, yn cael eu hysbysu ymlaen llaw o'r gwaith sydd i gael ei wneud;
- wrth i bob contract ddod i ben, bod adroddiad yn cael ei baratoi ar berfformiad y contractwr, sydd i gael ei ystyried wrth roi contractau yn y dyfodol.

2.6 Mae canllawiau ynghlwm wrth y polisi hwn ar gyfer rheolwyr, fydd o gymorth ar gyfer cydymffurfio â'r polisi

2.7 Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth yw gweithredu gofynion y polisi a pharatoi strategaeth weithredu.

CANLLAW POLISI

3. PAM Y MAE'N BWYSIG RHEOLI CONTRACTWYR?

- 3.1 Mae rheoli staff contract yn wael yn debygol o arwain at gostau i'r Cyngor ar ffurf damweiniau neu ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau nas dymunir neu annisgwyl yn y gweithle yn aml iawn yn cynnwys colledion ariannol i'r Cyngor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae anafiadau a salwch yn gostau amlwg, ond ceir hefyd costau fel niwed i beiriannau ac offer, i'r eiddo ac i gynnyrch.
- 3.2 Er y gellir adfer rhai o'r colledion a nodir uchod trwy hawlio yswiriant, amcangyfrifir y gall y colledion hyn sydd wedi eu hyswiro fod cyn lleied â 10% o gyfanswm y colledion. Mae hyn yn ei hanfod yn golygu mai'r Cyngor sy'n colli fwyaf.
- 3.3 Gall staff contract sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw achosi damweiniau yn y gweithle. Maent fel arfer yn llai cyfarwydd â'r gweithle na chyflogeion y Cyngor, ac eto maent yn aml yn gwneud gwaith sydd yn fwy peryglus. Er mwyn lleihau'r potensial am ddamweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o waith staff contract, ac i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch, mae gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth berthnasol yn hanfodol, mae'n rhaid nodi peryglon a chyflwyno dulliau rheoli cyn i'r gwaith ddechrau.
- 3.4 Gellir priodoli damweiniau a digwyddiadau i fethiant systemau rheoli'r Cyngor yn aml, sydd yn y pen draw yn gyfrifoldeb i'r uwch dîm rheoli. Mae cyflogwyr sy'n sefydlu systemau llwyddiannus, yn arbennig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, yn cael eu rheoli'n well ac yn meddu ar hanes o ddamweiniau a digwyddiadau sy'n adlewyrchu'r rheolaeth well yma.

4. Y SEFYLLFA GYFREITHIOL

- 4.1 Mae llawer o ofynion cyfreithiol perthnasol, yn dibynnu ar natur y gwaith contract, a cheir enghreifftiau o hyn isod:
 - **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974** sy'n gofyn i bob cyflogwr ddarparu manau a systemau gwaith diogel, yn cynnwys peiriannau ac offer diogel. Mae Adran 3 yn ymestyn y ddyletswydd hon i'r rheiny nad ydynt yn gyflogeion, yn cynnwys ymwelwyr a chontractwyr;
 - **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith** sy'n gofyn, er enghraifft, i bob cyflogwr gynnal asesiadau risg a sicrhau bod gweithwyr yn cael eu hysbysu, eu cyfarwyddo a'u hyfforddi'n ddigonol;
 - **Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles)** sy'n gofyn i gyflogwyr ddarparu man gwaith diogel (yr amgylchedd lle mae gwaith gwirioneddol yn digwydd);

- **Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith** sy'n gofyn i gyflogwyr sicrhau bod offer yn addas, yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn, bod y defnydd o offer sy'n cyflwyno perygl penodol yn cael ei gyfyngu i gyflogeion wedi eu hyfforddi sydd wedi cael y cyfrifoldeb hwnnw, bod offer yn ddiogel i'w ddefnyddio (amddiffynwyr ac ati.), bod iddo reolyddion a systemau rheoli addas, y gellir ei ynysu'n drydanol a'i fod yn cynnwys unrhyw rybuddion ac arwyddion gofynnol;
- **Rheoliadau Trydan yn y Gwaith** sy'n gofyn am asesiadau risg, sydd yn sicrhau bod offer yn cael ei adeiladu, ei osod a'i gynnal a'i gadw'n gywir a bod gosodiadau yn addas ar gyfer eu hamgylchedd. Mae'n rhaid i bob gweithgaredd ar offer trydanol, yn cynnwys cynnal a chadw, gael ei wneud yn ddiogel, a dim ond pobl sydd yn gymwys ar gyfer y tasgau a roddwyd all wneud gwaith trydanol;
- **Deddf Atebolrwydd Deiliaid** sy'n rhoi dyletswydd ar ddeiliaid pob adeilad i amddiffyn diogelwch ymwelwyr neu wynebu'r risg o dalu iawndal;
- **Deddf Telerau Contract Annheg** sydd yn benodol yn atal rhoi atebolrwydd cyfreithiol allan ar gontract. Er enghraifft, ni all unrhyw gontractwr sy'n cytuno i drefniadau lle mae'r cleient yn datgan nad oes rhaglen diogelwch tân ddilys yn weithredol ryddhau'r cleient rhag atebolrwydd os bydd tân yn digwydd. Mae gan reolwr yr eiddo set o ddyletswyddau cyfreithiol, sydd yn amodau contract ac ni ellir eu hepgor.

5. YMAGWEDD PUM CAM I REOLI CONTRACTWYR

5.1 Cam 1 - Cynllunio

Mae'r cam hwn yn ymwneud â sut i gynllunio swydd y contractwr, ac felly mae'n bwysig edrych ar y gwaith i'w wneud. Os yw gwaith o'r fath wedi cael ei wneud yn flaenorol, gall fod yn ddefnyddiol ystyried sut cafodd y gwaith ei wneud a pha wersi a ddysgwyd.

Yn ystod y cam hwn, mae'n rhaid gwneud asesiadau risg cychwynnol, a bydd y rhain yn pennu pa waith asesu risg pellach ddylid ei wneud cyn i'r gwaith ddechrau. Mae'n bwysig sylweddoli, os gellir dileu neu ddatrys risg yn ystod y cam hwn, y dylid gwneud hyn. Mae hefyd yn briodol ystyried a oes angen cyflwyno system trwydded i weithio i reoli rhai o'r peryglon sy'n deillio o'r gwaith. Defnyddir trwydded i weithio fel arfer pan fydd y gwaith yn cyflwyno perygl o anafiadau difrifol na ellir eu rheoli gan gamau diogelu ffisegol arferol.

Mae gan contractwyr hefyd gyfrifoldebau ar gyfer paratoi asesiadau risg yn unol â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Dylai eu hasesiadau risg ategu gwybodaeth y cleient a rhoi gwybodaeth i'r cleient. Yn yr un modd, bydd angen gwybodaeth ar contractwyr gan y cleient am y swydd, cyflwr peiriannau ac ati, wrth baratoi eu hasesiad risg. Mae'r cyfnewid gwybodaeth yma yn hanfodol i sicrhau bod yr holl beryglon sy'n gysylltiedig â'r swydd wedi eu cynnwys.

Lle y bo'n briodol, gall contractwyr, wrth gael eu penodi, hefyd baratoi datganiad o ddull diogelwch manwl ar y ffordd y maent yn bwriadu gwneud y gwaith er mwyn rheoli a rheoleiddio pob risg. Dylai hyn fod yn seiliedig ar asesu'r perygl i iechyd a diogelwch cyflogeion ac eraill a allai gael eu heffeithio gan y gwaith.

Mae asesiad risg yn hanfodol i'r cleient a'r contractwr i sicrhau bod peryglon y gwaith wedi eu rheoli'n llwyddiannus. Mae mwy o wybodaeth wedi ei nodi yn Atodiad A.

Pwyntiau allweddol yng Ngham 1

- cynllunio pob gwaith yn cynnwys contractwyr;
- cynnal asesiad risg yn ystod y cyfnod cynllunio a'i ddefnyddio i benderfynu pa ragofalon sydd eu hangen;
- cyfnewid gwybodaeth (wrth benodi'r contractwr).

Cam 2 – Dewis Contractwr

Mae'n hanfodol ystyried pa gymwyseddau technegol penodol sydd eu hangen mewn contractwr llwyddiannus. Mae hefyd yn bwysig ystyried unrhyw ofynion diogelwch cychwynnol y gellir mynnu eu cael. Gall y pwyntiau hyn ddileu rhai contractwyr posibl. Mae bob amser yn bwysig gofyn am dystiolaeth o gymwysterau a chymwyseddau y mae contractwr posibl yn eu honni.

Mae'r pwyntiau eraill y dylid eu hystyried yn cynnwys cost ac argaeledd.

Dylid rhoi gwybodaeth am natur y gwaith a gofynion diogelwch penodol a rheolau'r safle i bob contractwr posibl. Bydd angen cynnwys hyn yn fanylach mewn cyfarfod 'wyneb yn wyneb' gyda'r contractwr llwyddiannus wedi hyn, yn yr un modd â hyfforddiant ar gyfer staff y contractwr. Lle bo angen, dylid gofyn am ddatganiadau o ddull diogelwch gan y contractwr cyn i'r gwaith ddechrau.

Mae hefyd yn bwysig canfod a yw'r contractwr yn bwriadu defnyddio isgontractwyr neu beidio. Os caiff isgontractwyr eu defnyddio, bydd angen sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau eu bod nhw hefyd yn gymwys i wneud y gwaith penodol.

Ynglwm yn Atodiad B ceir rhestr wirio o'r cwestiynau y gall cleientiaid eu gofyn i contractwr.

Pwyntiau allweddol yng Ngham 2

- dewis contractwyr y mae iechyd a diogelwch yn un o'u prif amodau;
- nodi eich gofynion ar gyfer iechyd a diogelwch;
- gofyn cwestiynau a chael tystiolaeth. Canfod, er enghraifft, eu:
 - profiad;
 - polisi ac ymarfer iechyd a diogelwch;
 - hyfforddiant a chymhwysedd;
 - trefniadau goruchwyllo.
- datblygu contractwyr dewisol – y rheiny y gallwch ddibynnu arnynt, gyda threfniadau wedi eu datblygu ar gyfer iechyd a diogelwch.

Cam 3 – Contractwyr yn Gweithio ar y Safle

Bydd angen adolygu asesiadau risg ar ddechrau'r gwaith ei hun rhag ofn bod unrhyw ffactorau perthnasol wedi newid ers i'r contract gael ei ddyfarnu. Unwaith y mae'r gwaith wedi dechrau, dylai'r cleient sicrhau bod rheolau'r safle a mesurau rheoli risg yn cael eu gorfodi. Gall newidiadau mewn amgylchiadau olygu bod angen newid y contract yn barhaus; yn ystod y cyfnod hwn, gall fod angen 'ailystyried' y cyfnod cynllunio os oes newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud.

Dylai fod angen i contractwyr fewngofnodi ac allgofnodi fel bod cofnod parhaus o bwy sy'n bresennol ar y safle ar unrhyw adeg. Mae hyn yn hanfodol os oes angen gwagio'r safle oherwydd tân ac ati a bydd hefyd yn caniatáu'r cleient i gynnal gwiriadau ar lefelau staffio, trefniadau gwyliadwriaeth ac ati, os oes angen.

Dylai fod gan y contractwr enw cyswllt yn sefydliad y cleient, ac un neu ddau enw arall rhag ofn nad yw'r unigolyn penodol yma ar gael. Bydd angen cytuno'n ofalus ar drefniadau ar gyfer unrhyw iscontractwyr hefyd.

Pwyntiau allweddol yng Ngham 3

- mae mewngofnodi ac allgofnodi yn bwysig i bob contractwr, pryd bynnag y byddant yn mynd a dod;
- bydd angen cyswllt ar y safle ar bob contractwr;
- trosglwyddo gwybodaeth am y safle – y peryglon a'r risgiau, rheolau'r safle, gweithdrefnau brys, y larwm, cyfleusterau cymorth cyntaf, ac ati;

- cyfnewid gwybodaeth gyda nhw am y gwaith a mynd trwy unrhyw ddulliau gwaith diogel cyn i'r gwaith ddechrau.

Cam 4 - Monitro

Bydd graddau'r cyswllt sydd yn angenrheidiol rhwng sefydliad y contract a'r cleient yn amlwg yn dibynnu ar natur a hyd y contract. Er enghraifft, gall fod yn briodol dechrau cyfarfod yn rheolaidd, yn wythnosol neu'n fisol dyweder. Mae'n bwysig cadarnhau bod gwaith yn cael ei gwblhau i'r safonau a nodwyd ac o fewn y graddfeydd amser y cytunwyd arnynt.

Os bu unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau, neu newidiadau o ran personél ac ati, gallai fod angen trafod y rhain. Gall fod gofyniad hefyd am asesiadau risg pellach a/neu gofnod o fesurau rheoli er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau'n dal i gael eu lleihau i'r lefel isaf bosibl.

Pwyntiau allweddol yng Ngham 4

Mae'n bwysig eich bod yn cadw golwg ar y ffordd y mae'r gwaith yn dod yn er flaen yn erbyn:

- y cynllun;
- cytundeb y cleient, yn cynnwys manyleb y swydd;
- dulliau gwaith cytûn, yn cynnwys unrhyw ddatganiad o ddull 'trwydded i weithio'.

Ceisiwch fod yn rhagweithiol, nid yn adweithiol. Peidiwch â rhoi rhwydd hynt i'r contractwyr fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

Cam 5 – Adolygu'r Gwaith

Unwaith y mae'r gwaith contract wedi cael ei gwblhau, mae'n bwysig gwneud rhyw fath o adolygiad; unwaith eto bydd graddau hyn yn dibynnu ar natur a hyd y contract.

Dylai'r adolygiad ystyried effeithiolrwydd yr holl gyfnodau a amlinellir uchod. Mae'n ddefnyddiol ystyried nifer o bwyntiau cyffredinol yn ystod y cam hwn:

- pa mor effeithiol oedd y cynllunio cychwynnol?
- sut oedd perfformiad y contractwr?
- sut aeth y contract, ar y cyfan?
- pa wersi, os o gwbl, y gellir eu dysgu ar gyfer contractau tebyg yn y dyfodol?

Mae'r cyfnod adolygu yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol wrth lunio rhestrau o gontractwyr dewisol ar gyfer gwaith i'r dyfodol.

Pwyntiau Allweddol yng Ngham 5

Ar ôl gorffen y gwaith, dylid ei adolygu i:

- werthuso ansawdd;
- dysgu beth aeth yn dda a beth oedd heb fynd yn dda er mwyn gallu dysgu ar gyfer y tro nesaf.

Dylid adolygu:

- y contractwr;
- y gwaith.

Cadwch gofnod!

6. CYNGOR

6.1 Gellir cael cyngor ar weithredu'r polisi gan y Tîm Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elai, Williamstown, CF40 1NY, ffôn 01443 425531.

TREFNIADAU ASESU RISG

Mae Rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (MHSWR) yn mynnu bod gofyniad i wneud asesiadau addas a digonol o berygl unrhyw ymgymeriad i iechyd a diogelwch. Yn ogystal, ceir nifer o ofynion ar gyfer asesiadau risg penodol yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd;
- Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gwaith;
- Rheoliadau Rheoli Asbestos;
- Rheoliadau Gweithrediadau Ymdrin â Llaw;
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrîn Arddangos);
- Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith.

Dylai asesiad risg cyffredinol cychwynnol (yn unol ag MHSWR) o unrhyw waith contract i gael ei wneud nodi'r asesiadau risg penodol hynny y dylid eu cynnal i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod. Dylid gwneud yr asesiad risg cyffredinol cychwynnol ymhell cyn dechrau'r contract, ac mae hyn wedyn yn debygol o nodi'r angen am asesiadau risg mwy penodol ar gyfer meysydd penodol o'r gwaith contract. Gellir defnyddio llawer o'r wybodaeth sy'n cael ei chreu gan yr asesiadau cychwynnol hyn yn nogfennau'r contract (ar gyfer tendrau, ac ati), er mwyn sicrhau bod gan y sefydliadau contract hynny sydd â diddordeb yn y contract penodol ddigon o wybodaeth iechyd a diogelwch i seilio eu tendr neu eu hamcanbris arnynt.

Bydd dyfnder a manylder yr asesiadau risg yn dibynnu ar natur y gwaith i gael ei wneud, ond mewn llawer o achosion, bydd gofyniad i gynnal asesiadau risg pellach gan y cleient a'r sefydliad contract wrth i'r contract fynd yn ei flaen. Dylai pob parti sy'n gysylltiedig â'r contract wybod pwy sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau risg penodol. Dylid rhoi eglurhad yn y contract os oes unrhyw bosibilrwydd o anghydfod ynghylch cyfrifoldebau.

Os caiff asesiadau risg cyffredinol a phenodol eu cynnal yn drwyadl, ac wedyn eu hintegreiddio'n ofalus, bydd y canlyniad yn ffynhonnell gyfeirio fanwl mewn perthynas â'r:

- peryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith contract;
- yr asesiadau risg sy'n ymwneud â'r peryglon hyn;
- y mesurau ataliol y mae'n rhaid iddynt fod wedi cael eu sefydlu;
- cyfrifoldebau partion penodol dros fesurau ataliol penodol.

Cyfrifoldeb dros Asesu Risg

Mae'n hynod bwysig pennu p'un ai'r cleient neu'r contractwr ddylai gymryd cyfrifoldeb dros gynnal unrhyw asesiad risg penodol. Yn yr achosion mwyaf syml, mae'r canlynol yn berthnasol:

Y Cleient

Byddai disgwyl i'r cleient ddiffinio natur a chwmpas y gwaith a'r tasgau penodol cysylltiedig. Dylai'r cleient hefyd bennu'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r gwaith mewn perthynas â systemau, gweithdrefnau, ffactorau'r eiddo, prosesau gwaith a natur y gwaith. Er enghraifft, dylai'r cleient ystyried a allai staff y contract ddod i gysylltiad â sylweddau peryglus o ganlyniad i weithgareddau'r cleient. Gall fod angen i'r cleient adolygu a/neu ddiwygio asesiadau risg presennol er mwyn ystyried gwaith y contract, yn arbennig:

- peryglon yn ymwneud â'r dasg neu'r gweithrediad ac unrhyw fesurau rheoli ychwanegol sydd eu hangen;
- grwpiau o bobl a allai fod mewn perygl, fel gweithwyr ifanc, merched beichiog/mamau sy'n bwydo ar y fron, gweithwyr cynnal a chadw, ac ati;
- sefyllfaoedd posibl a allai arwain at niwed difrifol a/neu sydd ar fin digwydd ac unrhyw fesurau rheoli ychwanegol sydd eu hangen.

Fel y trafodwyd yn fras uchod, dylai'r broses hon roi digon o wybodaeth i'r contractwr gynllunio a chostio'r gwaith, gan wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer materion iechyd a diogelwch. Gellir rhoi'r wybodaeth i'r contractwr ar sawl ffurf, o fewn manyleb y contract, asesiadau risg, ac ati.

Y Contractwr

Disgwylir i'r contractwr defnyddio'r wybodaeth a ddisgrifiwyd uchod i gynllunio a chostio'r gwaith. Dylai'r contractwr hefyd ystyried cwmpas y gwaith ac asesiadau risg pellach sy'n ofynnol mewn perthynas â'r amgylchedd gwaith, prosesau gwaith, peiriannau ac offer, ac ati.

Yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r contractwr fod mewn sefyllfa i adnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith, asesu'r peryglon a phennu mesurau rheoli priodol. Bydd llawer o gontractwyr yn ymgorffori hyn ar ffurf datganiad o ddull, system wedi ei nodi'n ddiogel o gynllun gwaith neu iechyd a diogelwch penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r cleient ystyried y wybodaeth yma wrth ddewis contractwr, fel y disgrifir uchod.

Arbed Amser ac Ymdrech

Bydd llawer o achosion lle gellir defnyddio asesiadau risg presennol i gyfrannu at asesiadau risg y contract newydd, er mwyn osgoi 'ailddyfeisio'r olwyn'. Bydd y contractwr, mewn sawl achos, wedi creu asesiadau risg cyffredinol ar gyfer y mathau o waith a wneir yn rheolaidd y gellir eu haddasu a'u gwella i ystyried materion sy'n benodol i'r safle. Dylai fod gan y cleient hefyd asesiadau risg presennol ar gyfer ei holl feysydd gwaith, a bydd ailystyried y rhain yng ngoleuni'r gwaith contract i gael ei wneud yn broses syml yn aml. Yn amlwg, dylid cofnodi pob asesiad risg sy'n benodol i gontract ar wahân, ond os oes gwybodaeth ac asesiadau presennol wedi cael eu cofnodi'n electronig, eto, ni ddylai hyn fod yn anodd.

Asesu Risg Yn Ystod Oes y Contract

Er bydd y rhan fwyaf o'r gwaith asesu risg yn cael ei wneud cyn i'r contract ddechrau, bydd rhai mathau o gontractau, yn arbennig adeiladu, ac ati, lle bydd y sefyllfaoedd perthnasol yn newid yn wythnosol, ac weithiau o awr i awr. Mewn sefyllfa fel hyn, bydd angen diwygio a diweddarau asesiadau risg yn barhaus, ac mewn rhai achosion, bydd angen cynnal asesiadau risg cwbl newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyfrifoldeb y contractwr fydd hyn, ond eto, dylid cytuno ar hyn yn y contract cychwynnol.

ENGHRAIFFT O RESTR WIRIO CYMHWYSEDD: CWESTIYNAU AR GYFER CONTRACTWYR

Profiad

- Pa brofiad sydd gennych o'n math ni o fusnes?
- Pa mor gyfarwydd ydych chi â pheryglon ein busnes?
- Ydych chi wedi gwneud y math yma o waith o'r blaen? Beth yw'r prif broblemau?
- Allwch chi ddarparu asesiadau risg neu ddatganiadau o ddull presennol, e.e. ar gyfer gwaith tebyg?
- Allwch chi ddarparu geirda?

Polisi ac Ymarfer Iechyd a Diogelwch

- A oes gennych bolisi iechyd a diogelwch?
- A yw'r HSE erioed wedi cymryd camau yn eich erbyn?
- Beth yw eich gweithdrefnau iechyd a diogelwch?
- Ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw isgontractwyr?
- A fyddwch chi'n darparu datganiad o ddull diogel ar gyfer y gwaith hwn?
- Pa wiriadau diogelwch ydych chi'n eu cynnal ar offer a deunyddiau?

Hyfforddiant a Chymhwysedd

- Sut mae gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn cael ei drosglwyddo i staff ac isgontractwyr?
- A allwch chi ddangos eich rhaglen a'ch cofnodion hyfforddiant i ni?
- A oes gennych dystysgrifau cymhwysedd a chyfranogiad mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch cyfredol?
- Ydych chi'n aelod o gorff crefftwyr/proffesiynol?

Hyfforddiant a Chymhwysedd (parhad)

- Sut ydych chi'n sicrhau bod eich isgontractwyr yn gymwys?
- Sut ydych chi'n paratoi eich isgontractwyr ar gyfer gweithio'n ddiogel ar y safle?
- Pa hyfforddiant iechyd a diogelwch ydych chi'n ei ddarparu?

Goruchwyliaeth

- Sut ydych chi'n bwriadu goruchwyllo'r gwaith hwn?
- Pwy fydd yn gyfrifol am oruchwyliaeth ar y safle?
- Sut ydych yn ymdrin â newidiadau sy'n codi yn ystod cyfnod y gwaith?
- Sut byddwch chi'n cadw mewn cysylltiad â ni?
- Os byddwch yn dod ar draws problem, pa gamau ydych chi'n eu cymryd yn ymwneud â'ch staff neu isgontractwyr?
- A fyddwch chi'n ein hysbysu ni ynghylch digwyddiadau/damweiniau? - sut?
- Ydych chi'n barod i gydymffurfio â'n rheolau ni?

Dylai cleientiaid ychwanegu eu cwestiynau eu hunain a allai godi dros amser ac o brofiad

Dylai'r cleientiaid geisio mesur pa mor ddifrifol y mae contractwyr yn ystyried y pwnc. Sut mae contractwyr yn ymateb os ydych yn gofyn i weld tystiolaeth o gofnodion gweithdrefnau diogel neu hyfforddiant? Byddwch yn wiliadwrus o gwmnïau sy'n dweud y byddant yn eu darparu, ond ddim yn gwneud. Pa mor barod yw'r contractwr i ddysgu am eich safonau a chydymffurfio â nhw? Beth am gontractwyr rheolaidd? Os nad ydych yn gwybod llawer am eu gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'u cymhwysedd technegol, darganfyddwch.

RHESTR WIRIO RHEOLWYR

	✓ Fel y bo'n Briodol		
	Dd/B	Oes	Nac oes
• A oes cytundebau i sicrhau bod rheolwyr yn cael gwybod am bwysigrwydd rheoli contractwyr?			
• A oes ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr o ofynion cyfreithiol iechyd a diogelwch yn ymwneud â gwaith contract?			
• A oes ystyriaeth o'r ymagwedd 'pum cam' i reoli contractwyr?			
• A oes ystyriaeth o'r wybodaeth a roddir yn Atodiadau A a B?			
• A oes gweithdrefnau monitro wedi eu sefydlu i sicrhau bod gofynion y polisi'n cael eu bodloni?			

Cwblhawyd gan: _____
(Llofnod)

Cadarnhawyd gan: _____
(Llofnod)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Enw: _____
(Llythrennau bras)

Dynodiad: _____

Dynodiad: _____

Dyddiad: _____

Dyddiad: _____